

586/51

**CYMRAEG - IAITH GYNTAF CY6**  
**(FIRST LANGUAGE)**

DEFNYDDIO'R IAITH A GWERTHFAWROGI  
RHYDDIAITH A BARDDONIAETH

*(Arholiad Ysgrifenedig)*

A.M. DYDD IAU, 22 Mehefin 2006

(3 awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch y **pedwar** cwestiwn.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt.

Dylid defnyddio dyfyniadau a themau beirniadaeth lenyddol a chyfeirio at farn eraill lle bo hynny'n briodol.

Mae angen i chi ysgrifennu Cymraeg da a chywir a chyflwyno'ch atebion yn drefnus.

Dylech dreulio tuag **AWR** ar bob adran.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Oherwydd gofynion pwysoli bydd y cyfrifiadur yn lluosu'r marciau fel a ganlyn:

	Marciau ar y papur	Pwysoli	Marciau Terfynol
Adran A	90	× 1	90
Adran B	40	× 3	120
Adran C	60	× 1.5	90

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na thestunau gosod yn yr arholiad.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

## ADRAN A – RHYDDIAITH

1. Darllenwch y detholiad o hunangofiant dychmygol Rebecca Jones yn ofalus, yna atebwch y cwestiynau a ganlyn.

### Bro Fy Mebyd

Ceisiais innau weld fy mharhad ym mharhad y cwm. Yn llif y nant; yn y blagur a'r blodau; yn nyfodiad gwenoliaid i'r murddun ym mis Mai; yng nghylch y tymhorau ac yng ngweithgaredd tymhorol y fferm; yng ngeni'r wŷyn; yng nghneifio'r defaid; yn lladd y gwair a'i fedi; yn nhorri'r rhedyn ar lethrau Foel Dinas a'r Foel Bendin.

Ceisiais weld fy mharhad yn llonyddwch digyfnawid cwm Maesglasau.

Ceisiais weld fy mharhad hefyd ym mherthynas hirhoedlog fy nheulu â'r cwm. Bu fy hynafiaid yma yn ffermio ers canrifoedd lawer – ers bron i fil o flynyddoedd, yn ôl cofnod hen Feibl y teulu.

Bûm innau, drwy ddegawdau fy mod, yn dyst i drawsnewidiadau rhyfeddol. Yn lle'r carllusg daeth beic modur. Yn lle'r ceffyl gwedd daeth tractor. Yn lle merlen a throl daeth car. Yn lle kannwyll frwyn daeth kannwyll wêr, ac yna lusern baraffin, ac yna olau trydan. Yn lle corff daeth peiriant. Yn lle llaw daeth teclyn. Yn lle llythyr daeth ffôn, ac yn lle'r ffôn, yn ôl a glywais, daeth negeseuon ar sgrin. Yn lle papur newydd daeth radio a theledu. Yn lle llyfr daeth ffilm. Yn lle Saboth daeth Sul.

Gwelwyd y cyfan gan gwm Maesglasau, a pharhaodd. Parhau mae'r llonyddwch. Parhau mae fy nheulu yma: mae fy nai, a'm gor-nai, yn ffermio saith can erw o'r cwm heddiw, chwe chan erw ohono'n dir mynyddig. Parhau mae cymdeithas y pentref, a diwylliant y fro. Parhau yn unigrwydd blaen y cwm yr wyf innau: mewn hen, hen dŷ, heb drydan, a heb ddŵr ond dŵr y nant. A heb angen mwy ond gwybod bod parhad wedi'i ysgrifio yn y tir.

Felly y bu. Felly y mae. Felly y bydd.

Twyllo fy hun yr wyf, wrth gwrs. Ni welaf yr erydu sydd heddiw ar y cwm, ond y mae yno. Gweithio i golled mae ffermwr y mynydd heddiw. Nid oes bri ar ffermio mynydd. Gofynnol, bellach, yw 'arallgyfeirio'. Troi etifeddiaeth mil o flynyddoedd yn *theme park*. Troi ffordd o fyw yn ffordd o gyflwyno. Troi traddodiad yn anrheg mewn siop. Troi aelwyd yn westy. Troi teulu yn rheolwyr. Troi arfer yn gofnod. Troi bywyd yn hanes.

Bydd buarthau'r ffermydd yn wag, wedi i'r bysys a'r ceir fynd ymaith. A'r ucheldiroedd yn amddifad o ddiadell a dyn.

Newid, meddent i mi, y mae cymdeithas y pentref hefyd. Y rhai ifanc yn gadael i gael gwaith, a'r hen yn marw. Dieithriaid o ganolbarth Lloegr yn prynu tai am grobris o fargen, ac yn gwirioni ar y golygfeydd. Ond yn gwrthod cymathu. Yn methu â deall. Yn *mynnu* cael deall. A dyna iaith y fro'n troi'n iaith 'dwyieithrwydd'.

Felly, uniaith Saesneg fydd eisteddfod y Groglith yn y man, a chyfarfodydd y gymdeithas lenyddol, Sefydliad y Merched, y clwb garddio, y clwb gweu, y cwmni drama, sioe amaethyddol mis Awst, y Gymanfa a'r cyfarfod ysgolion, gwasanaeth diolchgarwch y plant, gwasanaeth y Nadolig, gwasanaeth y plygain yn eglwys Llanymawddwy. Bydd y Gymraeg yn anhyglyw ar fuarth yr ysgol, ar gorneli stryd, yn y cartrefi . . .

Gwelaf yn awr nad yw parhad yn ddigyfnawid. Hawdd yw ymyrryd ag o.

(Trwy garedigrwydd Gwasg Gomer)

- (i) Cyflwynwch a dadansoddwch gynnwys y darn **yn eich geiriau eich hun.** [30]
- (ii) Dadansoddwch arddull y darn. [30]
- (iii) Ysgrifennwch am weithiau llenyddol eraill yr ydych yn gyfarwydd â nhw sy'n ymdrin â phwnc neu bynciau tebyg. Ydy'r ymdriniaeth yn debyg neu'n wahanol? [30]

*(Gallwch gyfeirio at weithiau Cymraeg perthnasol a ddarllenwyd neu a welwyd gennych yn ogystal â thestunau a astudiwyd.)*

## ADRAN B – DEFNYDDIO’R IAITH

2. Disgrifiwch eich profiad a’ch teimladau wedi i chi gael eich siomi wrth ymweld â lle arbennig neu wedi i chi fod mewn digwyddiad arbennig. Gall y gwaith fod yn waith dychmygol. (Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen.) [20]
3. Cyfieithwch y darn canlynol i’r Gymraeg. [20]

### The experience of learning Welsh by an American

By lunchtime I felt dejected. Maybe it is the grey and gloomy weather, or maybe all those *treigladau*. Whatever the cause, I am again questioning my sanity at the difficult task ahead of me. Why go through all this? Who will have the patience to listen to my attempts? I would need someone to speak Welsh to me in a slow, clear and simple way. Who would be willing to do that?

I reconsider the Welsh, sometimes so friendly, warm and curious. Sometimes they are also unhelpful and aloof. Is this my mood or is it true? Am I a threat to their culture? I hope to think that I am not. I am not an invader; I only want to speak the language. Isn’t this an act of love for Wales and an act of devotion and loyalty to Welshness? It is a courageous act, really, to try to look through the crack in the door to Welsh-speaking Wales. The English-speaking Welsh treat you like you are crazy for learning Welsh and the Welsh-speaking Welsh humour you, if you are lucky. It’s a tough hill to climb alone.

## ADRAN C – BARDDONIAETH

### 4. Dadansoddwch bwnc a mynegiant y gerdd isod gan Gwyn Thomas.

- Wrth ddadansoddi'r gerdd hon dylech gyfeirio at gerddi neu weithiau llenyddol eraill yr ydych yn gyfarwydd â nhw sy'n ymdrin â phwnc neu bynciau tebyg.
- Ydy'r ymdriniaeth yn debyg neu'n wahanol? [60]

*(Gallwch gyfeirio at weithiau perthnasol Cymraeg a ddarllenwyd neu a welwyd gennych yn ogystal â thestunau a astudiwyd.)*

### yma y mae fy lle

Fel, yn \*annileadwy, y nodir  
 Delw y cyntaf un a welir  
 Ar fodolaeth cywion gwyddau,  
 Felly y mae'r llethrau hyn  
 Sy'n esgyn fry, i fyny  
 Wedi'u marcio ynof finnau.

Yma, yn y mawnogydd, y mae fy lle,  
 Yn y mannau llaith, y corsydd  
 Rhwng esgeiriau hir y creigiau  
 Ymysg y meini llwydion yma sydd  
 Fel llygatau'r cynfyd.

Yma, yn y gwair gwydyn, y mae fy lle,  
 Yn nhrybestod llechi gleision  
 A ddarniwyd, \*yn ddethau â ffrwydron  
 A'u tynnu i fyny o berfeddion y ddaear hen.

Yma y mae fy lle, yng ngarwedd yr ucheldir  
 Lle mae'r gigfran a'r gylfinir,  
 A'r defaid – eneidiau cyfeiliorn i gyd;  
 Pethau hen, Cymraeg, elfennig,  
 Pethau sydd – a hynny yn ddiddarfod –  
 Hyd lefelau dyfnaf fy mod.

- \* annileadwy – na ellir ei ddileu
- \* yn ddethau – yn fedrus

(Trwy garedigrwydd y cylchgrawn *Taliesin*)